

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

**Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy a Sgil-
gynhyrchion Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018**

Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 22 Tachwedd 2018

Sifftio

A fydd angen sifftio yn Senedd y DU?	Bydd
Gweithdrefn:	Negyddol arfaethedig
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Ty'r Cyffredin	4 Rhagfyr 2018
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Ty'r Arglwyddi	4 Rhagfyr 2018
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	10 Rhagfyr 2018
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur 29
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Dim angen

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Ddim yn hysbys
Y weithdrefn	Negyddol neu Gadarnhaol
Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol	Ddim yn hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ty'r Cyffredin	Ddim yn hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Ty'r Arglwyddi	Ddim yn hysbys

Sylwadau

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU o dan adran 8(1), a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r Rheoliadau hyn yn sicrhau y bydd pum darn canlynol o ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE yn gwbl weithredol pan fydd y DU yn ymadael â'r UE ac yn ymwneud ag atal clefydau anifeiliaid; yn benodol ynghylch rheoli ac atal enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy a'r defnydd o sgil-gynhyrchion anifeiliaid, eu gwaredu, eu rhoi ar y farchnad a'u mewnfario:

- Rheoliad (EC) Rhif 999/2001
- Penderfyniad y Comisiwn 2007/453
- Penderfyniad y Comisiwn 2009/719

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011

Mae enffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy a sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn feysydd lle mae'r cyfrifoldeb wedi'i ddatganoli ac yn cael eu gweithredu yn y DU drwy is-ddeddfwriaeth ym mhob gwlad gyfansoddol yn y DU. Nid yw'r Rheoliadau'n deddfu unrhyw bolisi newydd.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 27 Tachwedd 2018 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn ystyried bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 y Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol wedi nodi unrhyw reswm cyfreithiol i geisio cynnig cydsyniad o dan Reol Sefydlog 30A.10 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.